

# Astudiaeth Achos: Gweithredwr Camera - Henry

## Beth ydych chi'n ei wneud?

Mae gweithredwyr camerâu yn paratoi'r saethiadau ar gais y cyfarwyddwr. Rydyn ni'n awgrymu dewisiadau posibl eraill i'r cyfarwyddwr ac yn gwneud yn siwr ein bod ni bob amser yn barod ar gyfer y saethiad nesaf.

Rydw i'n weithredwr camera ar fy liwt fy hun, sy'n golygu fy mod i'n gweithio ar sail contract ar bob math o brosiectau. Mae'r rhain yn cynnwys ffilmau, sioeau teledu a rhaglenni dogfen.



## Beth yw'ch cefndir?

I ddechrau roedd gen i ddiddordeb mewn ffotograffiaeth lonydd, ac roedd ffrind da i mi yn ffotograffydd. Ond sylweddoles i fod mwy o ddiddordeb gen i yn y symudiad. Rydw i wastad wedi hoffi rhaglenni dogfen ac yn meddwl y byddwn i'n hoffi rhoi cynnig ar ffilmio. Mae rhoi camera ar fy ysgwydd a ffilmio bywyd go iawn yn dipyn o wefr. Dyna beth wnaeth fy nenu at y swydd hon mewn gwirionedd.

I ddechrau gweithies i fel golygydd ffilm, ac yna fel gweithredydd camera rhaglenni dogfen.

## Pa nodweddion sydd eu hangen i fod yn llwyddiannus yn eich swydd chi?

Mae'n rhaid i weithredwyr camerâu gael cyfuniad o allu artistig ac ymwybyddiaeth dechnegol. Mae'n rhaid i chi weithredu offer y camera a hefyd meddwl am syniadau newydd creadigol ar gyfer ffilmio golygfa.

Mae'n helpu os ydych chi'n rhywun cymdeithasol oherwydd rydych chi'n gweithio gyda llawer o wahanol fathau o bobl, o actorion i gyfarwyddwyr i bobl dechnegol.

## Pa swyddi eraill allech chi ei wneud gan ddefnyddio'r sgiliau o'r swydd hon?

Gallai gweithredwyr camerâu dal i dynnu lluniau llonydd; mae'n defnyddio rhai o'r un sgiliau gweledol a thechnegol. Gyda mwy o hyfforddiant a phrofiad, gallai gweithredwr camera roi cynnig ar gyfarwyddo.

## Pa newidiadau fydd yn y dyfodol?

Rwy'n meddwl y bydd y galw am weithredwyr camerâu yn parhau'r un fath mwy neu lai.

Er bod technoleg yn datblygu trwy'r amser, bydd egwyddorion sylfaenol ffilmio ac offer yn parhau yr un fath.

## Beth yw heriau mwyaf eich swydd?

Y rhan fwyaf heriol o fod yn weithredwr camera yw cael hyd i brosiect diddorol sydd hefyd yn her artistig. Mae llawer o waith ar gael, fel hysbysebion teledu, sydd ddim yn heriol iawn o gwbl. Mae'r gwaith yma yn talu'n dda, ond dyw e ddim cymaint o hwyl. Mae'n llawer mwy anodd cael hyd i waith ysgogol. Rydych chi'n ffodus os ydych chi'n cael un prosiect gwirioneddol ddiddorol y flwyddyn.

## Oes nifer o gyfleoedd i fynd i mewn i'r yrfa hon?

Oes, mae rhai cyfleoedd, ond dim llawer. Mae unrhyw fath o wybodaeth am ffilmio yn rhoi mantais i chi dros eraill, felly ewch ar gyrsiâu coleg neu bachwch ar unrhyw gyfleoedd eraill rydych chi'n dod ar eu traws.

## Beth ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Rwy'n hoffi'r amrywiaeth o brosiectau rydw i'n gweithio arnyh nhw a'r heriau sy'n codi. Hefyd, rydych chi'n cwrdd ag amrywiaeth dda o bobl.

## Beth nad ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Mae'r oriau yn hir iawn weithiau. Ac os ydyn ni'n gwneud digwyddiadau awyr agored, mae'r tywydd a'r glaw yn oedi'r gwaith sy'n boendod.

## Pa gyngor fyddwch chi'n ei rhoi i rywun sydd â diddordeb yn eich gyrfa chi?

Peidiwch â digalonni. Bydd adegau pan fyddwch chi'n meddwl bod dim byd yn gweithio, byddwch chi byth yn cael gwaith arall, ond bydd prosiect yn cyrraedd ac mae'r manteision ariannol a chreadigol yn enfawr. Felly peidiwch â rhoi'r ffidil yn y to, mae'n swydd wych.

## Diwrnod ym mywyd

7:00 yb - 8:00 yb

Cyrraedd y set. Trafod y saethiad cyntaf â'r cyfarwyddwr a rhoi fy sylwadau.

8:00 yb - 9:00 yb

Gosod y camera: gweithio gyda'r gafaelion i osod doli y bydd y camera yn cael ei rhoi arni i'w symud o gwmpas.

9:00 yb - 10:00 yb

Paratoi'r saethiad a thrafod y goleuo â'r cyfarwyddwr ffotograffiaeth.

10:00 yb - 12:00 yb

Y saethiad cyntaf:

- gweithredu'r camera
- gwneud yn siwr bod yr actorion a'r olygfa wedi'u fframio a'u recordio'n briodol
- trafod yr olygfa â'r cyfarwyddwr
- ail-saethu'r olygfa efallai.

12:00 yb - 1:00 yb

Yr ail saethiad:

- gosod yr offer
- saethu
- trafod
- ail-saethu.

1:00 yb - 2:00 yb

Cinio.

2:00 yb - 3:00 yb

Adolygu'r tâp/clipiau ffilm a recordiwyd y diwrnod blaenorol.

3:00 yb - 4:00 yb

Mynd â'r offer i gyd yn ôl i'r stiwdio.

4:00 yb - 5:00 yb

Rhoi popeth heibio a chau popeth i lawr.